# Codi'r caead ar stigma tlodi yng Nghymru: Atodiad methodolegol

Mae'r adroddiad "Codi'r caead ar stigma tlodi yng Nghymru" yn seiliedig ar ddata a gasglwyd drwy arolwg Cipolwg ar Dlodi 2024 Sefydliad Bevan (Sefydliad Bevan, 2024). Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein gan YouGov a chasglwyd data rhwng 15 a 18 Ionawr. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,029 o oedolion a chafodd y data ei bwysoli i gynrychioli poblogaeth Cymru.

Roedd deg eitem yn yr arolwg yn gofyn am stigma tlodi. Addaswyd yr eitemau hyn o astudiaeth ddiweddar o stigma tlodi ac iechyd meddwl yn y DU (Inglis et al., 2024). Roedd pump o'r eitemau hyn yn ymwneud â stigma personol a phum eitem yn ymwneud â stigma strwythurol canfyddedig. Mae'r categorïau ymateb a'r sgoriau i'w gweld isod yn Nhabl 1.

**Tabl 1: Opsiynau ymateb a sgoriau ar gyfer yr eitemau stigma tlodi personol a stigma tlodi strwythurol canfyddedig.**

| Opsiwn Ymateb | Sgôr |
|---|---|
| **Dwi ddim yn gwybod** | 0 |
| **Byth** | 0 |
| **Yn anaml** | 1 |
| **Weithiau** | 2 |
| **Yn aml** | 3 |
| **Bob amser** | 4 |

Cyfunwyd atebion ymatebwyr yr arolwg i'r cwestiynau hyn i roi dwy sgôr gyffredinol ar gyfer stigma personol a stigma strwythurol canfyddedig. Gallai cyfanswm y sgoriau ar gyfer y ddau fath o stigma amrywio rhwng 0 ac 20 ac roedd sgoriau uwch yn dangos lefelau uwch o stigma.

Mae'r prif ddadansoddiadau'n seiliedig ar gyfanswm y sgoriau ar gyfer stigma personol a stigma strwythurol canfyddedig. Roedd diddordeb arbennig yn agweddau'r cyhoedd tuag at wasanaethau cyhoeddus, ac felly cynhaliwyd dadansoddiadau ychwanegol hefyd ar y ddwy eitem o stigma strwythurol canfyddedig sy'n ymwneud yn benodol â gwasanaethau cyhoeddus: "*Pobl ar incwm*

*isel yn derbyn gwasanaethau cyhoeddus o safon is*" a "*Gwasanaethau cyhoeddus sy'n gwneud i chi deimlo'n annigonol pan fyddwch chi'n byw ar incwm isel*."

Cynhaliwyd profion-t annibynnol ar samplau a dadansoddiadau unffordd o amrywiant (ANOVA) i gymharu'r cyfanswm sgoriau stigma personol a stigma strwythurol canfyddedig, yn ogystal ag ymatebion i'r ddau gwestiwn penodol ar wasanaethau cyhoeddus, rhwng gwahanol grwpiau cymdeithasol (e.e. oedran, rhyw, ac ati). Ni ragdybiwyd amrywiadau cyfartal rhwng grwpiau yn y dadansoddiadau hyn, ac adroddir F Welch ar gyfer pob ANOVA.

Rhoddir allbwn llawn pob prawf isod, ac mae pob dadansoddiad yn seiliedig ar y data wedi'i bwysoli.

## Rhywedd

Ar gyfartaledd, dywedodd ymatebwyr gwrywaidd fod lefelau is o stigma personol (Cymedr = 2.04) nag ymatebwyr benywaidd (Cymedr = 2.49). Nid oedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol, fodd bynnag, $t$ (1026.52) = -1.79, $p$ = .074, $d$ = -.11.

Soniodd ymatebwyr gwrywaidd (Cymedr = 10.12) a benywaidd (Cymedr = 10.11) am lefelau tebyg o stigma strwythurol canfyddedig ac nid oedd unrhyw wahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y grwpiau, $t$ (1018.93) = .03, $p$ = .980 $d$ = .002.

Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng ymatebwyr gwrywaidd (Cymedr = 1.86) ac ymatebwyr benywaidd (Cymedr = 1.83) mewn ymateb i'r eitem *Pobl ar incwm isel yn derbyn gwasanaethau cyhoeddus o safon is*, $t$ (1018.60) = .38, $p$ = .707, $d$ = .02.

Hefyd, nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng ymatebwyr gwrywaidd (Cymedr = 1.59) a benywaidd (Cymedr = 1.64) mewn ymateb i'r eitem *Gwasanaethau cyhoeddus sy'n gwneud i chi deimlo'n annigonol pan fyddwch chi'n byw ar incwm isel*, $t$ (1020.07) = -.57, $p$ = .57, $d$ = -.04.

## Oedran

Roedd yr adroddiadau cyfartalog am stigma personol yn amrywio rhwng ymatebwyr 16-24 oed (Cymedr = 3.23), 25-49 (Cymedr = 2.93), 50-64 (Cymedr = 2.02) a 65+ (Cymedr = 1.11). Drwyddi draw, roedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y pedwar grŵp oedran $F$ (3, 446.14) = 15.42, $p < .001$. Roedd cymariaethau Games-Howell post hoc yn dangos bod ymatebwyr rhwng 16 a 24 oed wedi nodi lefelau uwch o stigma personol o'i gymharu â'r rheini rhwng 50 a 64 ($p$ = .04) a 65+ ($p < .001$). Roedd ymatebwyr rhwng 25 a 49 oed yn nodi lefelau uwch o stigma o'u cymharu â'r rheini rhwng 50 a 64 oed ($p$ =.032) a 65+ ($p < .001$). Roedd ymatebwyr

50-64 oed yn nodi lefelau uwch o stigma o'u cymharu â'r rheini sy'n 65 oed neu'n hŷn ($p$ = .024).

Roedd yr adroddiadau cyfartalog am stigma strwythurol canfyddedig yn amrywio rhwng ymatebwyr 16-24 oed (Cymedr = 9.59), 25-49 (Cymedr = 10.97), 50-64 (Cymedr = 9.92) a 65+ (Cymedr = 9.38). Drwyddi draw, roedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn yr adroddiadau cyfartalog o stigma strwythurol canfyddedig rhwng y pedwar grŵp oedran $F$ (3, 452.59) = 4.61, $p$ = .003. Dangosodd Games-Howell post hoc fod y rhai yn y grŵp oedran 25-49 yn adrodd lefelau uwch o stigma strwythurol canfyddedig na'r rhai yn y grŵp 65 oed a hŷn ($p$ = .004).

Roedd yr ymatebion i'r eitem *Pobl ar incwm isel yn derbyn gwasanaethau cyhoeddus o safon is* yn amrywio rhwng ymatebwyr 16-24 oed (Cymedr = 1.58), 25-49 (Cymedr = 2.00), 50-64 (Cymedr = 1.86) a 65+ (Cymedr = 1.76). Drwyddi draw, roedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y pedwar grŵp oedran $F$ (3, 453.80) = 3.49, $p$ = .016. Roedd cymariaethau Games-Howell post hoc yn dangos bod ymatebwyr rhwng 16 a 24 oed wedi nodi sgoriau is o'u cymharu â'r rheini rhwng 25 a 49 oed ($p$ = .015), ond nid oedd unrhyw wahaniaethau eraill rhwng grwpiau yn ystadegol arwyddocaol.

Roedd yr ymatebion i'r eitem *Gwasanaethau cyhoeddus sy'n gwneud i chi deimlo'n annigonol pan fyddwch chi'n byw ar incwm isel* yn amrywio rhwng ymatebwyr 16-24 oed (Cymedr = 1.56), 25-49 (Cymedr = 1.78), 50-64 (Cymedr = 1.46) a 65+ (Cymedr = 1.57). Drwyddi draw, roedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y pedwar grŵp oedran, $F$ (3, 457.84) = 2.73, $p$ = .043. Roedd cymariaethau Games-Howell post hoc yn dangos bod y sgôr cyfartalog yn uwch ymysg ymatebwyr rhwng 25 a 49 oed o'u cymharu â'r rheini rhwng 50 a 64 oed ($p$ = .033), ond nid oedd unrhyw wahaniaethau eraill rhwng grwpiau yn ystadegol arwyddocaol.

## Incwm yr aelwyd

Ar gyfartaledd, roedd ymatebwyr a ddywedodd bod incwm blynyddol yr aelwyd yn llai nag £20,000 yn nodi lefelau uwch o stigma personol (Cymedr = 3.60) o'i gymharu â'r rheini sydd ag incwm o £20,000 neu fwy (Cymedr = 1.80) neu'r rheini na wnaethant roi incwm eu haelwyd (Cymedr = 2.02). Roedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn y stigma personol a riportiwyd rhwng y tri grŵp oedran, $F$ (2, 457.21) = 11.80, $p$ < .001. Roedd cymariaethau Games-Howell post hoc yn dangos bod ymatebwyr ag incwm aelwyd o lai nag £20,000 wedi nodi lefelau uwch o stigma personol o'u cymharu â'r rheini sydd ag incwm aelwyd o £20,000 neu fwy ($p$ < .001) neu'r rheini na wnaethant ddarparu incwm eu haelwyd ($p$ < .001).

Roedd y lefelau stigma strwythurol canfyddedig yn debyg ymysg ymatebwyr ag incwm aelwyd o lai nag £20,000 (Cymedr = 10.22) ac £20,000 neu fwy (Cymedr = 10.33), ond ychydig yn is ymysg ymatebwyr na wnaethant ddarparu data incwm eu haelwyd (M = 9.57). Nid oedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn y stigma

strwythurol canfyddedig a riportiwyd rhwng y tri grŵp oedran, $F$ (2, 508.57) = 1.57, $p$ = .209.

Roedd yr ymatebion i'r eitem *Pobl ar incwm isel yn derbyn gwasanaethau cyhoeddus o safon is* yn amrywio rhwng ymatebwyr sydd ag incwm aelwyd blynyddol o lai nag £20,000 (Cymedr = 1.97), £20,000 neu fwy (Cymedr = 1.86) a'r rheini na wnaethant ddarparu gwybodaeth am incwm eu haelwyd (Cymedr = 1.70). Fodd bynnag, nid oedd y gwahaniaethau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol, $F$ (2, 521.39) = 2.31, $p$ = .100.

Roedd yr ymatebion i'r eitem *Gwasanaethau cyhoeddus sy'n gwneud i chi deimlo'n annigonol pan fyddwch chi'n byw ar incwm isel* yn amrywio rhwng ymatebwyr a oedd ag incwm blynyddol o lai nag £20,000 (Cymedr = 1.71), £20,000 neu fwy (Cymedr = 1.63) ac ymatebwyr na wnaethant ddarparu'r wybodaeth hon (Cymedr = 1.48). Drwyddi draw, nid oedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y grwpiau hyn, $F$ (2, 521.24) = 1.81, $p$ = .164.

## Math galwedigaeth yr aelwyd

Soniodd ymatebwyr yng ngrŵp ABC1 am lefelau is o stigma personol (Cymedr = 1.69) na'r rhai yng ngrŵp C2DE (Cymedr = 2.86), ac roedd y gwahaniaeth hwn yn ystadegol arwyddocaol, $t$ (929.10) = -4.64, $p$ < .001, $d$ = -.29.

Roedd yr adroddiadau cyfartalog am stigma strwythurol canfyddedig yn debyg rhwng ABC1 (Cymedr = 10.13) ac C2DE (Cymedr = 10.11), ac nid oedd unrhyw wahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y grwpiau $t$ (1021.14) = .07, $p$ = .948, $d$ = .00.

Roedd yr ymatebion i'r eitem *Pobl ar incwm isel yn derbyn gwasanaethau cyhoeddus o safon is* yn debyg ymysg ymatebwyr o grwpiau ABC1 (Cymedr = 1.87) ac C2DE (Cymedr = 1.83), ac nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng y ddau grŵp, $t$ (1025.19) = .41, $p$ = .686, $d$ = .03.

Roedd yr ymatebion i'r eitem *Gwasanaethau cyhoeddus sy'n gwneud i chi deimlo'n annigonol pan fyddwch chi'n byw ar incwm isel* yn debyg ymysg yr ymatebwyr yng ngrwpiau ABC1 (Cymedr = 1.59) neu C2DE (Cymedr = 1.64), ac nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng y ddau grŵp, $t$ (1022.69) = -.58, $p$ = .561, $d$ = -.04.

## Ansicrwydd bwyd

Roedd ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi torri i lawr ar faint prydau bwyd neu wedi hepgor prydau bwyd iddyn nhw eu hunain yn ystod y tri mis diwethaf yn nodi lefelau uwch o stigma personol (Cymedr = 4.64) na'r rheini nad oeddent wedi torri'n ôl neu wedi hepgor prydau bwyd, neu wedi ymateb "dwi ddim yn gwybod" neu

"mae'n well gen i beidio â dweud" (Cymedr = 1.52), ac roedd y gwahaniaeth hwn yn ystadegol arwyddocaol, $t$ (324.92) = -9.18, $p < .001$, $d$ = -.81.

Roedd ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi torri i lawr ar faint prydau bwyd neu wedi hepgor prydau bwyd iddyn nhw eu hunain yn ystod y tri mis diwethaf hefyd yn nodi lefelau uwch o stigma strwythurol canfyddedig (Cymedr = 11.82) na'r rheini nad oeddent wedi torri'n ôl neu wedi hepgor prydau bwyd, neu wedi ymateb "dwi ddim yn gwybod" neu "mae'n well gen i beidio â dweud" (Cymedr = 9.57), ac roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol, $t$ (413.92) = -5.48, $p < .001$, $d$ = -.40.

Roedd yr ymatebion i'r eitem *Pobl ar incwm isel yn derbyn gwasanaethau cyhoeddus o safon is* yn uwch ymysg ymatebwyr a oedd wedi torri'n ôl neu wedi hepgor prydau bwyd iddyn nhw eu hunain yn ystod y tri mis diwethaf (Cymedr = 2.22) o'u cymharu â'r rheini nad oedd wedi torri'n ôl (Cymedr = 1.73). Roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol, $t$ (402.99) = -4.84, $p < .001$, $d$ = -.36.

Roedd yr ymatebion i'r eitem *Gwasanaethau cyhoeddus sy'n gwneud i chi deimlo'n annigonol pan fyddwch chi'n byw ar incwm isel* yn uwch ymysg ymatebwyr a oedd wedi torri'n ôl neu wedi hepgor prydau bwyd iddyn nhw eu hunain yn ystod y tri mis diwethaf (Cymedr = 2.00) o'i gymharu â'r rheini nad oedd wedi torri'n ôl (Cymedr = 1.49). Roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol, $t$ (412.96) = -4.86, $p < .001$, $d$ = -.36.

## Anabledd

Roedd ymatebwyr a ddywedodd na fu ganddynt unrhyw broblem iechyd nac anabledd yn ystod y 12 mis diwethaf wedi nodi lefelau is o stigma personol (Cymedr = 1.73) o'u cymharu â'r rheini a oedd wedi profi problem iechyd neu anabledd yn ystod y 12 mis diwethaf (Cymedr = 3.41). Roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol, $t$ (499.16) = -5.63, $p < .001$, $d$ = -.42.

Roedd ymatebwyr a ddywedodd na fu ganddynt unrhyw broblem iechyd nac anabledd yn ystod y 12 mis diwethaf hefyd wedi nodi lefelau is o stigma strwythurol canfyddedig (Cymedr = 9.70) o'u cymharu â'r rheini a oedd wedi profi problem iechyd neu anabledd yn ystod y 12 mis diwethaf (Cymedr = 10.99). Roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol, $t$ (682.68) = -3.49, $p < .001$, $d$ = -.23.

Roedd yr ymatebion i'r eitem *Pobl ar incwm isel yn derbyn gwasanaethau cyhoeddus o safon is* yn uwch ymysg ymatebwyr a oedd wedi nodi problem iechyd neu anabledd yn ystod y 12 mis diwethaf (Cymedr = 1.98) o'u cymharu â'r ymatebwyr nad oeddent wedi nodi problem iechyd neu anabledd yn ystod y 12 mis diwethaf (Cymedr = 1.78). Roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol, $t$ (697.55) = -2.16, $p$ =.031, $d$ = -.14.

Roedd yr ymatebion i'r eitem *Gwasanaethau cyhoeddus sy'n gwneud i chi deimlo'n annigonol pan fyddwch chi'n byw ar incwm isel* yn uwch ymysg y rhai a ddywedodd iddynt gael problem iechyd neu anabledd yn ystod y 12 mis diwethaf (Cymedr = 1.86) o'u cymharu â'r rheini nad oedd wedi cael problem iechyd neu anabledd (Cymedr = 1.50). Roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol, $t$ (661.71) = -3.92, $p < .001$, $d$ = -.26.

## Yn cael budd-daliadau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn cael unrhyw rai o'r budd-daliadau canlynol:

- Credyd cynhwysol
- Credyd Treth Plant
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Cymhorthdal incwm
- Budd-dal Tai
- Credyd Treth Gwaith
- Credyd Pensiwn

Ar gyfer pob math o fudd-dal, atebodd ymatebwyr naill ai "ydw" neu "nac ydw". Cafodd dau grŵp eu creu ar sail yr ymatebion hyn: y rheini a atebodd "ydw" i o leiaf un math o fudd-dal (sy'n cael budd-daliadau) a'r rheini a atebodd "nac ydw" i bob math o fudd-dal (nad ydynt yn cael budd-daliadau).

Ar gyfartaledd, roedd ymatebwyr a oedd yn cael o leiaf un math o fudd-dal yn nodi lefelau uwch o stigma personol (Cymedr = 4.13) o'u cymharu â'r rheini nad oeddent yn cael budd-daliadau (Cymedr = 1.82). Roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol, $t$ (257.81) = -6.20, $p < .001$, $d$ = -.58.

Ar gyfartaledd, roedd ymatebwyr a oedd yn cael o leiaf un math o fudd-dal yn adrodd lefelau ychydig yn uwch o stigma strwythurol canfyddedig (Cymedr = 10.89) o'u cymharu â'r rheini nad oeddent yn cael budd-daliadau (Cymedr = 9.93). Roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol, $t$ (288.56) = -2.05, $p$ = .042, $d$ = -.17.

Roedd yr ymatebion i'r eitem *Pobl ar incwm isel yn derbyn gwasanaethau cyhoeddus o safon is* yn uwch ymysg ymatebwyr a oedd yn cael o leiaf un math o fudd-dal (Cymedr = 2.04) o'u cymharu â'r rheini nad oeddent yn cael budd-daliadau (Cymedr = 1.80). Roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol, $t$ (295.25) = -2.13, $p$ = .034, $d$ = -.17.

Roedd yr ymatebion i'r eitem *Gwasanaethau cyhoeddus sy'n gwneud i chi deimlo'n annigonol pan fyddwch chi'n byw ar incwm isel* yn uwch ymysg ymatebwyr a oedd yn cael o leiaf un math o fudd-dal (Cymedr = 1.85) o'u cymharu â'r rheini nad oeddent yn cael budd-daliadau (Cymedr = 1.56), ac roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol, $t$ (298.40) = -2.55, $p$ = .011, $d$ = -.21.

## Profiad gofalwyr

Roedd yr adroddiadau cyfartalog am stigma personol yn amrywio rhwng ymatebwyr a oedd ar hyn o bryd yn ofalwyr (Cymedr = 2.55), a oedd wedi bod yn ofalwr o’r blaen (Cymedr = 2.57) a’r rheini nad oeddent erioed wedi bod yn ofalwr neu nad oeddent wedi darparu’r wybodaeth hon (Cymedr = 2.16). Drwyddi draw, fodd bynnag, nid oedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn lefelau’r stigma personol a riportiwyd rhwng y tri grŵp $F$ (2, 254.61) = .99, $p$ = .371.

Roedd yr adroddiadau cyfartalog am stigma strwythurol canfyddedig hefyd yn debyg ymysg ymatebwyr a oedd yn ofalwyr (Cymedr = 10.76), a oedd wedi bod yn ofalwr yn y gorffennol (Cymedr = 10.13) neu nad oeddent erioed wedi bod yn ofalwr neu nad oeddent wedi darparu’r wybodaeth hon (Cymedr = 10.00). Nid oedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn lefel y stigma strwythurol canfyddedig a riportiwyd rhwng y tri grŵp, $F$ (2, 270.42) = 1.03, $p$ = .360.

Roedd yr ymatebion i’r eitem *Pobl ar incwm isel yn derbyn gwasanaethau cyhoeddus o safon is* yn amrywio rhwng ymatebwyr a oedd wedi bod yn ofalwr o’r blaen (Cymedr = 1.84), sy’n ofalwr ar hyn o bryd (Cymedr = 1.96) a’r rheini nad oeddent erioed wedi bod yn ofalwr neu na wnaethant ddarparu’r wybodaeth hon (Cymedr = 1.83). Fodd bynnag, nid oedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y tri grŵp hyn, $F$ (2, 265.52) = .50, $p$ =.608.

Roedd yr ymatebion i’r eitem *Gwasanaethau cyhoeddus sy’n gwneud i chi deimlo’n annigonol pan fyddwch chi’n byw ar incwm isel* yn amrywio ymysg ymatebwyr a oedd wedi bod yn ofalwr yn y gorffennol (Cymedr = 1.61), sy’n ofalwr ar hyn o bryd (Cymedr = 1.71) a’r rheini nad oeddent erioed wedi bod yn ofalwr neu na wnaethant ddarparu'r wybodaeth hon (Cymedr = 1.60). Fodd bynnag, drwyddi draw nid oedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y grwpiau hyn, $F$ (2, 266.12) = .30, $p$ = .741.

## Deiliadaeth tai

Roedd yr adroddiadau cyfartalog am stigma personol yn amrywio yn dibynnu ar p’un a oedd ymatebwyr yn berchen ar eu cartref (Cymedr = 1.43), yn rhentu gan landlord preifat (Cymedr = 3.30), yn rhentu gan gymdeithas tai neu awdurdod lleol (Cymedr = 4.19) neu’n nodi math arall o ddeiliadaeth tai (Cymedr = 3.20). Roedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y grwpiau, $F$ (3, 255.07) = 19.17, $p$ < .001. Dangosodd profion Games-Howell post hoc fod ymatebwyr a oedd yn berchen ar eu cartref yn adrodd lefelau is o stigma personol o’u cymharu â’r rheini a oedd yn rhentu eu cartref gan landlord preifat ($p$ < .001) neu a oedd yn rhentu gan awdurdod lleol neu gymdeithas tai ($p$ < .001), neu a oedd wedi nodi math arall o ddeiliadaeth tai ($p$ < .001).

Roedd yr adroddiadau cyfartalog am stigma strwythurol canfyddedig yn amrywio yn dibynnu ar p'un a oedd ymatebwyr yn berchen ar eu cartref (Cymedr = 9.71), yn rhentu gan landlord preifat (Cymedr = 10.53), yn rhentu gan gymdeithas tai neu awdurdod lleol (Cymedr = 11.04) neu'n nodi math arall o ddeiliadaeth tai (Cymedr = 10.66). Fodd bynnag, nid oedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn y sgoriau stigma personol cyfartalog yn ôl deiliadaeth tai y cyfranogwyr, $F$ (3, 281.74) = 2.61, $p$ = .052.

Roedd yr ymatebion i'r eitem *Pobl ar incwm isel yn derbyn gwasanaethau cyhoeddus o safon is* yn amrywio ymysg ymatebwyr a oedd yn berchen ar eu cartref (Cymedr = 1.79), yn rhentu gan landlord preifat (Cymedr = 1.95), yn rhentu gan gymdeithas tai neu awdurdod lleol (Cymedr = 1.97) neu'n nodi math arall o ddeiliadaeth tai (Cymedr = 1.90). Fodd bynnag, drwyddi draw nid oedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y grwpiau hyn, $F$ (3, 286.45) = .94, $p$ =.423.

Roedd yr ymatebion i'r eitem *Gwasanaethau cyhoeddus sy'n gwneud i chi deimlo'n annigonol pan fyddwch chi'n byw ar incwm isel* yn amrywio ymysg ymatebwyr a oedd yn berchen ar eu cartref (Cymedr = 1.49), yn rhentu gan landlord preifat (Cymedr = 1.79), yn rhentu gan awdurdod lleol neu gymdeithas tai (Cymedr = 1.92) neu'n nodi math arall o ddeiliadaeth tai (Cymedr = 1.73). Drwyddi draw, roedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y grwpiau, $F$ (3, 287.83) = 4.25, $p$ = .006. Roedd cymariaethau Games-Howell post hoc Howell yn dangos bod gan y rheini a oedd yn rhentu gan awdurdod lleol neu gymdeithas tai sgoriau uwch ar gyfartaledd o'u cymharu â'r rheini a oedd yn berchen ar eu cartref, $p$ = .026. Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol eraill rhwng y grwpiau.

## Rhanbarth

Roedd yr adroddiadau cyfartalog am stigma personol yn debyg ar draws y Canolbarth a'r Gorllewin (Cymedr = 2.90), y Gogledd (Cymedr = 1.98), Caerdydd a Chanol De Cymru (Cymedr = 2.45), y De-ddwyrain (Cymedr = 2.20) a'r De-orllewin (Cymedr = 1.80). Drwyddi draw, nid oedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol o ran stigma personol a riportiwyd rhwng y rhanbarthau, $F$ (4, 505.20) = 1.92, $p$ = .106.

Roedd yr adroddiadau cyfartalog am stigma strwythurol canfyddedig yn debyg ar draws y Canolbarth a'r Gorllewin (Cymedr = 10.52), y Gogledd (Cymedr = 9.79), Caerdydd a Chanol De Cymru (Cymedr = 10.04), y De-ddwyrain (Cymedr = 10.02) a'r De-orllewin (Cymedr = 10.27). Drwyddi draw, fodd bynnag, nid oedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol o ran stigma strwythurol canfyddedig a riportiwyd rhwng y rhanbarthau, $F$ (4, 503.70) = .47, $p$ = .758.

Roedd yr ymatebion i'r eitem *Pobl ar incwm isel yn derbyn gwasanaethau cyhoeddus o safon is* yn amrywio ymysg ymatebwyr sy'n byw yn rhanbarthau'r Canolbarth a'r Gorllewin (Cymedr = 2.00), y Gogledd (Cymedr = 1.78), Caerdydd a Chanol De Cymru (Cymedr = 1.78), y De-ddwyrain (Cymedr = 1.74), a'r De-orllewin

(Cymedr = 1.98). Fodd bynnag, nid oedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y grwpiau hyn, $F$ (4, 504.82) = 1.52, $p$ = .194.

Roedd yr ymatebion i'r eitem *Gwasanaethau cyhoeddus sy'n gwneud i chi deimlo'n annigonol pan fyddwch chi'n byw ar incwm isel* yn amrywio ymysg ymatebwyr sy'n byw yn rhanbarthau'r Canolbarth a'r Gorllewin (Cymedr = 1.75), y Gogledd (Cymedr = 1.50), Caerdydd a Chanol De Cymru (Cymedr = 1.57), y De-ddwyrain (Cymedr = 1.65), a'r De-orllewin (Cymedr = 1.63). Fodd bynnag, nid oedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y grwpiau hyn, $F$ (4, 504.32) = .90, $p$ = .463.

# Cyfeiriadau

Inglis, G., Sosu, E., McHardy, F., Witteveen, I., a Jenkins, P., Finlay, J., Knifton, L., a McDaid, S. (2024). **Experiences of poverty stigma and mental health in the UK**. Cyrchwyd o: **https://www.mentalhealth.org.uk/our-work/research/experiences-poverty-stigma-and-mental-health-uk**

info@wcpp.org.uk
+44 (0)29 2087 5345
@WCfPP
www.wcpp.org.uk
Cardiff University, Sbarc/Spark, Maindy Road, Cardiff, CF24 4HQ
Prifysgol Caerdydd, Sbarc/Spark, Heol Maendy, Caerdydd, CF24 4HQ

## Manylion yr Awduron

**Dr Greig Inglis**, darlithydd mewn Seicoleg ym Mhrifysgol Gorllewin yr Alban.

**Amanda Hill-Dixon**, Uwch-gymrawd Ymchwil, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

**Josh Coles-Riley**, Cydymaith Ymchwil, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
+44 (0) 29 2087 5345
**info@wcpp.org.uk**

OGL Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored

Wales Centre
for Public Policy
Canolfan Polisi
Cyhoeddus Cymru